



Y Siarter Gwybodaeth

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r hyn a olygwn pan fyddwn yn siarad am ddata personol, pam ein bod yn gofyn am yr wybodaeth hon amdanoch a'r hyn a wnawn gyda'r data. Mae hefyd yn esbonio sut yr ydym yn storio eich data, sut y gallwch gael copi o'r wybodaeth yr ydym wedi ei chasglu amdanoch a sut y gallwch gwyno os byddwch yn credu ein bod wedi gwneud rhywbeth o'i le

Pam ein bod yn casglu data personol

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw'r rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu a'i storio. Rydym yn defnyddio data personol i gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd ac yn rhan o'n gwaith gydag Asiantaethau Gweithredol a Chyrff Hyd Braich.

Rydym yn gyfrifol am weinyddu cyfiawnder. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- ddiogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu
- darparu system gyfiawnder droseddol, sifil, gweinyddol a theuluol sy'n effeithiol, eglur ac ymatebol
- diwygio'r system gyfiawnder
- datblygu polisi cyfiawnder
- gwneud cyfreithiau newydd
- darparu cymorth cyfreithiol
- cadw cofrestr o atwrneiaethau parhaus ac atwrneiaethau arhosol, dirprwyon sydd wedi'u penodi gan y llys a dirprwyon goruchwylio sydd wedi'u penodi gan y llys.
- recriwtio a chefnogi'r farnwriaeth
- hyrwyddo ein nwyddau a'n gwasanaethau
- cadw ein cyfrifon
- cefnogi a rheoli staff.

Mae rhywfaint o'r gwaith a wnawn yn cael ei reoli gan ddeddfau sy'n nodi beth y gallwn ei wneud a beth na allwn ei wneud gyda data personol. Cewch fwy o wybodaeth am y rhain yn atodiad A.

Ynghylch gwybodaeth bersonol

Data personol yw gwybodaeth amdanoch chi fel unigolyn. Gall gynnwys eich enw, eich cyfeiriad neu'ch rhif ffôn. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth am achosion llys neu achosion tribiwnlys yr ydych wedi cymryd rhan ynddynt, a manylion unrhyw droseddau ac euogfarnau. Nid yw data personol yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â phobl sydd wedi marw, grwpiau neu gymunedau o bobl, sefydliadau neu fusnesau.

Pan fyddwn yn gofyn am ddata personol

Bob tro y byddwn yn gofyn am wybodaeth amdanoch, rydym yn addo:

- gofyn am eich caniatâd o flaen llaw
- gadael i chi wybod pam ein bod ei hangen bob tro
- gofyn am wybodaeth personol berthnasol yn unig
- sicrhau nad ydym yn ei chadw'n hirach nag sydd angen
- cadw eich gwybodaeth yn ddiogel a sicrhau na all unrhyw un gael gafael arni heblaw bod ganddynt yr awdurdod i wneud hynny
- rhannu eich data gyda sefydliadau eraill at bwrpasau cyfreithiol yn unig
- ystyried unrhyw gais a wnewch am gael cywiro eich data personol, ei ddileu neu ein hatal rhag ei storio

Rydym hefyd yn addo ei gwneud hi'n hawdd i chi:

- roi gwybod i ni unrhyw bryd os ydych eisiau i ni roi'r gorau i storio eich data personol
- wneud cŵyn gyda'r awdurdod sy'n goruchwyllo

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut a pham y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu, gwelwch yr wybodaeth a ddarparwyd pan ddechreuoch chi ddefnyddio ein gwasanaethau neu pan wnaethom gysylltu â chi.

Y data personol a gasglwn

Byddwn ond yn casglu'r data personol yr ydym ei angen er mwyn darparu gwasanaethau i chi. Gall hyn gynnwys:

- manylion personol
- teulu, ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- gwybodaeth ariannol
- manylion am gyflogaeth ac addysg
- nwyddau neu wasanaethau a ddarperir
- gwybodaeth am iechyd meddwl neu iechyd corfforol
- tarddiad ethnig neu darddiad hiliol
- credoau crefyddol neu gredoau eraill
- aelodaeth o undeb llafur
- dewisiadau a/neu hanes rhywiol
- troseddau, yn cynnwys troseddau honedig
- achosion troseddol, canlyniadau a dedfrydau
- data genetig a biometrig
- cenedligrwydd a statws mewnfudo

Rhannu eich data personol

Weithiau mae angen i ni rannu eich gwybodaeth personol gyda rhannau eraill o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a hefyd gyda sefydliadau eraill. Byddwn yn gwneud hynny dim ond pan fydd Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) ac unrhyw ddeddfau eraill yn ein caniatáu i wneud hyn.

Dyma rai o'r sefydliadau y gallem rannu eich gwybodaeth personol â nhw:

- eich teulu, eich cysylltiadau a'ch cynrychiolwyr
- asiantaethau cyflogi a recriwtio
- darpar-gyflogwyr, cyflogwyr presennol a chyn-gyflogwyr
- addysgwyr, sefydliadau hyfforddi a chyrff arholi
- cynghorwyr neu ymarferwyr ym meysydd gofal iechyd, gofal cymdeithasol a lles
- llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog
- asiantaethau gwirio credyd
- cyflenwyr a darparwyr gwasanaethau
- asiantaethau olrhain a chasglu dyledion
- sefydliadau ariannol
- aelodau seneddol
- gweinidogion
- aelodau'r farnwriaeth
- cysylltiadau busnes a chynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol eraill
- asiantiaid a staff y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- mudiadau gwirfoddol ac elusenol
- ombwdsryn ac awdurdodau rheoleiddio
- cymdeithasau masnach, cymdeithasau cyflogwyr a chyrff proffesiynol
- heddluoedd
- y cyfryngau
- proseswyr data
- archwilwyr a chyrff archwilio
- awdurdodau erlyn
- gwasanaethau diogelu

Rhannu eich data personol dramor

Weithiau, efallai y bydd rhaid i ni drosglwyddo eich gwybodaeth personol dramor. Os oes rhaid i ni wneud hyn, byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau diogelu data perthnasol.

Gweld eich gwybodaeth personol

Gallwch ganfod pa ddata personol sydd gennym amdanoch drwy wneud cais gwrthrych am wybodaeth. I ganfod sut i wneud hyn, ewch i:

<https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/personal-information-charter>.

Cael rhagor o wybodaeth

Gallwch gael rhagor o fanylion ynglŷn â:

- sut i ofyn i ni gywiro unrhyw wallau
- cytundebau sydd gennym gyda sefydliadau eraill ynglŷn â rhannu gwybodaeth
- pryd y cawn basio gwybodaeth bersonol ymlaen heb ddweud wrthy, er enghraifft, er mwyn helpu i atal neu ddatrys trosedd neu i gynhyrchu ystadegau dienw
- cyfarwyddiadau a rown i staff ar sut i gasglu, defnyddio neu ddileu eich gwybodaeth bersonol
- sut rydym yn gwirio bod yr wybodaeth a gedwir gennym yn gywir ac wedi ei diweddarau
- sut i wneud cwyn.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r rhain, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn: data.compliance@justice.gov.uk neu ysgrifennwch at:

The Data Protection Office
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Pan fyddwch yn ymweld â ni ar-lein

Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefannau, rydym yn rhoi 'cwcis' (darn o ddata) ar eich dyfais i wella eich profiad ar-lein. Byddwn bob amser yn gofyn am eich caniatâd i wneud hynny.

Gallwch ganfod rhagor am ein polisiâu cwcis yn:

- <https://www.justice.gov.uk/privacy>
- <https://www.gov.uk/help/cookies>

Cwynion

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth, byddwn yn cadw at y gyfraith. Os credwch ein bod heb drin eich gwybodaeth yn gywir, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael cyngor annibynnol am ddiogelu data yn y cyfeiriad isod.

Information Commissioner's Office
Wycliffe House, Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113
www.ico.org.uk

Atodiad A

Dyma rai o'r deddfau sy'n rheoli'r ffordd yr ydym yn defnyddio ac yn storio gwybodaeth bersonol:

- Deddf Llysoedd 2003
- Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013
- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Rheoli Troseddwyr 2007
- Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Cyfarwyddiadau Ymarfer a'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol, Sifil a Theulu
- Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd bwerau cyfraith gyffredin sy'n ein galluogi i wneud ein gwaith.